

# Adroddiad Blynyddol Rheoli Perfformiad Corfforaethol 2021/22

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




**Perfformiad o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol:**

| | |
|---|---|
| GWELLA | Perfformiad gwell |
| SEFYDLOG | Perfformiad yr un fath |
| DIRYWIO | Perfformiad gwaeth |
| DIM TUEDD | Dangosydd newydd – Dim cymhariaeth hanesyddol |

# Diogelu 17-22

Mae effaith COVID-19 ar ein poblogaeth sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, ein gweithlu a gwasanaethau iechyd a gofal wedi bod yn flaenllaw unwaith eto dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r gwaith o gyflawni'n strategaethau allweddol i gefnogi plant, teuluoedd ac oedolion ag anghenion gofal a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach gartref wedi cael ei herio'n ddifrifol.

Yn y gwasanaethau i blant, mae'r diffyg yng Nghymru gyfan o ran adnoddau staff gweithwyr cymdeithasol wedi cael effaith sylweddol, yn ogystal â'r mater i Gymru gyfan o ran digonolrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal.

Yn y gwasanaethau i oedolion, mae'r ôl-groniadau a achosir gan unigolion nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal wedi dwysáu cymhlethdod yr unigolion sy'n dangos anghenion. Mae hyn yn ei dro wedi gwaethygu'r anawsterau o ran diwallu'r angen cynyddol hwnnw a achosir gan y diffyg yn adnoddau'r gweithlu ar draws yr holl wasanaethau iechyd a gofal i oedolion. Mae prinder gweithlu'n arbennig o ddifrifol mewn gwasanaethau gofal cartref gan danseilio'r ddarpariaeth ymhellach yn ein huchelgais strategol i gefnogi mwy o unigolion yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na mewn lleoliadau mwy sefydliadol.

Bu ffactor cymhlethu pellach o ran adrodd a monitro perfformiad yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn a achoswyd gan ddiffyg sefydlogrwydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Genedlaethol Cymru a aeth yn fyw yn Abertawe yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r system bellach yn sefydlog ond ni fydd yn bosib cyflwyno adroddiadau diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar rai dangosyddion oherwydd yr effaith sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Yn naturiol, cafodd yr heriau a amlygwyd uchod effaith sylweddol ar berfformiad, yn enwedig lle mae ein ffocws wedi gorfod symud tuag at reoli'r argyfwng a sicrhau nad oedd systemau iechyd a gofal yn chwalu.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae perfformiad cyffredinol wedi parhau'n rhyfeddol o dda ac mae'n glod i'n Penaethiaid Gwasanaeth, eu huwch-dimau rheoli ac yn bwysicaf oll ein gweithlu.

Yn y gwasanaethau i blant, mae'r ffocws deublyg o ddarparu mwy o gymorth cynnar wrth gynnal arferion diogelu rhagweithiol cadarn wedi golygu bod mwy o blant wedi'u  cefnogi i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac mae nifer ein plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i ostwng. Mae her arbennig o ran pobl ifanc h?n ag ymddygiad cymhleth a heriol sy'n gofyn am ddarpariaeth breswyl arbenigol nad ydym wedi gallu'i darparu na'i chomisiynu. Bydd ein strategaeth i ehangu darpariaeth ranbarthol leol ac arbenigol fewnol yn mynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig ond yn y cyfamser gwelsom gynnydd mewn pobl ifanc yncael eu lleoli yn Lloegr neu mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio. Nid yw'r niferoedd yn uchel ond serch hynny mae'n arwydd o bryder y bydd angen i ni ei fonitro'n ofalus y flwyddyn nesaf.

Yn y gwasanaethau i oedolion, mae cynnig atal cryfach drwy gydlynu ardaloedd lleol a gweithio gyda chydweithwyr yn y trydydd sector wedi golygu bod unigolion a'u gofalwyr sy'n methu cael mynediad at ofal a chefnogaeth ffurfiol wedi cael lefel o gymorth lliniarol. Mae hyn wedi helpu i leihau lefelau'r galw sy'n fwy na'r gallu presennol ond rydym yn dal i ddod â'r flwyddyn i ben gydag ôl-groniadau sylweddol mewn asesiadau, adolygiadau a mynediad at ofal cartref.

Mae ein gwasanaethau dydd a'n darpariaeth cyfleoedd dydd eraill wedi parhau i ehangu drwy gydol y flwyddyn a chynhaliwyd adnoddau ychwanegol gennym yn ein darpariaeth breswyl fewnol i ddarparu lleoliadau seibiant brys ac estynedig/lleoliadau tymor byr. Rydym hefyd wedi ehangu mynediad at daliadau uniongyrchol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth a gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.


Unwaith eto, mae'r mesurau hyn wedi lliniaru rhai o effeithiau negyddol ôl-groniadau/diffyg mynediad i lefelau arferol a mathau o ofal a chefnogaeth ond mae'r effeithiau negyddol hynny wedi bod yn sylweddol o hyd ar unigolion ag anghenion gofal a chefnogaeth a'u gofalwyr.

Parhaodd ein hysbytai i fod dan bwysau sylweddol o ganlyniad i brinder gweithlu, effaith COVID-19 ar gleifion a'r cyfyngiadau a achoswyd gan yr angen i roi mesurau rheoli heintiau llym ar waith. Mae'r pwysau hyn mewn ysbytai wedi ychwanegu at bwysau ar wasanaethau cymunedol ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn wedi golygu bod mwy o bobl wedi gorfod cael mynediad i leoliadau gofal preswyl ar sail tymor byr heb o reidrwydd allu cael therapi ailalluogi. Mae hyn wedi cynyddu'r tebygrwydd y bydd rhai unigolion yn aros mewn lleoliad tymor hir yn y pen draw. Mae hyn hefyd yn golygu, yn ogystal ag ôl-groniadau, ein bod yn gorffen y flwyddyn gyda niferoedd uchel o unigolion yn rhan 'anghywir' y system gofal iechyd.

Bydd yn cymryd misoedd lawer i adfer y system wrth i ni symud o reoli'r pandemig i fyw gyda COVID-19 endemig.

O ganlyniad bydd yn cymryd y rhan fwyaf o'r flwyddyn sydd i ddod i'n perfformiad ar draws yr ystod arferol o ddangosyddion ddychwelyd at yr hyn y byddem wedi disgwyl ei weld pe na bai COVID-19 wedi digwydd.

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| AD011a ⇧ Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd wedi: a) Lleihau'r angen am gefnogaeth | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer AD011c |
| | Canlyniad | | | 45 | |
| DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 45 | |
| | Enw. | | | | |
| AD011b ⇩ Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd wedi: b) Cynnal yr angen am gefnogaeth | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer AD011c |
| | Canlyniad | | | 189 | |
| DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 189 | |
| | Enw. | | | | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| AD011c ⇧<br>Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd wedi: c) Lliniaru'r angen am gefnogaeth<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Er bod effeithiau COVID-19 wedi effeithio ar faint o wasanaethau ailalluogi a ddarparwyd eleni, mae'r ffigur yn galonogol gan ei fod yn dangos, er gwaethaf hyn, fod y gwasanaeth wedi cyflawni canlyniadau da ar gyfer canran uwch o'r rheini sydd wedi derbyn gwasanaethau ailalluogi ac wedi gadael y gwasanaeth gyda llai o angen am ofal tymor hir, neu ddim angen o gwbl. Mae'r data'n ddata dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | | | 305 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 305 | |
| | Enw. | | | | |
| AD011d ⇩<br>Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y cyfnod a oedd: ch) Heb leihau, cynnal na lliniaru'r angen am gefnogaeth<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer AD011c |
| | Canlyniad | | | 86 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 86 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| AD017 ⇧<br>Nifer y pecynnau Gofal a Chymorth oedd i'w hadolygu yn ystod y cyfnod a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Fel y disgwyliwyd yn ystod y pandemig, rydym wedi gorfod addasu'n hymagwedd at ganolbwyntio ar flaenoriaethau brys gydag effaith gydfodol ar ffocws ein hymyriadau - mae adfer y sefyllfa hon yn flaenoriaeth yn ein gwaith yn y flwyddyn i ddod ac mae gennym gynllun strategol i adfer y sefyllfa. |
| | Canlyniad | | | 2345 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 2345 | |
| | Enw. | | | | |
| AD024 ⇧<br>Cyfanswm nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad o gam-drin honedig.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Mae'r tîm diogelu'n darparu mwy o ymgynghoriadau sy'n canolbwyntio ar ymagweddau ataliol ac mae hyn wedi arwain at ymholiadau llai ffurfiol. Y ganran flynyddol o ymholiadau sydd wedi'u cwblhau mewn 7 niwrnod yw 78.63% |
| | Canlyniad | | | 754 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 754 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CA005a ⇩<br>Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y cyfnod lle: a) Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cefnogi gofalwr neu gynllun gofal a chefnogaeth.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Rydym wedi cynyddu nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd drwy ganolbwyntio'n strategol ar gynyddu'r ffigur hwn - rydym yn parhau i ganolbwyntio ar welliant pellach ar y maes hwn yn y flwyddyn i ddod |
| | Canlyniad | | | 225 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 225 | |
| | Enw. | | | | |
| CA005b ⇧<br>Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y cyfnod lle: b) Roedd modd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CA005a. |
| | Canlyniad | | | 111 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 111 | |
| | Enw. | | | | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylwt-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CA005c ⇧<br>Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y cyfnod lle: c) Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu. | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CA005a. |
| | Canlyniad | | | 8. | |
| DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 8 | |
| | Enw. | | | | |
| CFS11a ⇩<br>Nifer y plant ar Gorfrestr Amddiffyn Plant (CAP) yr awdurdod lleol ar diwedd y cyfnod | COG | | | | Yn gyffredinol, mae nifer y plant ar y gofrestr wedi aros yn gyson ar draws y flwyddyn hon, ond mae'n is na blynyddoedd blaenorol. Mae archwiliadau diogelu wythnosol yn adolygu penderfyniadau a wneir ar gofrestru a dadgofrestru er mwyn sicrhau cysondeb wrth gymhwyso trothwyon. |
| | Canlyniad | | | 190 | |
| DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 190 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS19a ⇧<br>Canran yr ymweliadau a phlant ar y Gofrestr Amddyffin Plant (CAP) nad oedd yn hwyr | COG | GWYRDD | | | Rydym wedi gweld gwelliant yn y cofnodi amserol ar y system newydd o ymweliadau statudol â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, sy'n golygu bod llai o ymweliadau'n ymddangos fel rhai hwyr. |
| | Canlyniad | 93.85% | 88.19% | 91.75% | |
| | Targed | 90.00% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 229 | 224 | 189 | |
| | Enw. | 244 | 254 | 206 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS19b ⇧<br>Nifer yr ymweliadau â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) nad oeddent yn hwyr<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CFS19a |
| | Canlyniad | | | 189 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 189 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS2 (CH039) ⇩<br>Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) ar ddiwedd y cyfnod | COG | COCH | | | Rydym yn parhau i weld gostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy gyflawni'n strategaeth yn gyson i gefnogi plant a phobl ifanc i barhau i fyw gyda'u teuluoedd, lle mae'n ddiogel gwneud hynny. |
| | Canlyniad | 566 | 550 | 488 | |
| | Targed | 520 | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 566 | 550 | 488 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS24 ⇩<br>Cyfanswm nifer y plant sydd a chynllun gofal a chefnogath ar diwedd y cyfnod | COG | GWYRDD | | | Mae'r gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc a gefnogir gan dimau gwaith cymdeithasol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn atgyfnerthu effaith gadarnhaol ein model cymorth cynnar - gyda mwy o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn y lefel gywir o gymorth, ar yr adeg gywir. Mae hygyrchedd wyneb yn wyneb y gwasanaeth hwn wedi gwella'n aruthrol ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi'n raddol. |
| | Canlyniad | 1550 | 1303 | 1254 | |
| | Targed | 1600 | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1550 | 1303 | 1254 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS25 ⇩<br>Nifer y plant/bobl ifanc a gefnogir gan yr Hybiau Cymorth Cynnar ar ddiwedd y cyfnod.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Mae cywirdeb yr adroddiadau ar nifer y plant/bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi wedi gwella gan ein bod bellach yn gallu ychwanegu plant/pobl ifanc unigol at y system fel rhan o'r cymorth i deuluoedd a gynigir. Gweler hefyd y sylw ar gyfer CFS24. |
| | Canlyniad | | | 1034 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 1034 | |
| | Enw. | | | | |
| CFS26 ⇩<br>Nifer y cysylltiadau â'r Ganolfan GCCh (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) Plant a Theuluoedd sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ganolfan Ddiogelu Integredig.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Mae nifer y cysylltiadau a drosglwyddwyd i'r Ganolfan Ddiogelu Integredig wedi bod yn llawer uwch mewn rhai mannau nag y byddem yn ei ragweld. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi derbyn atgyfeiriadau ar gyfer nifer o grwpiau mwy o siblingiaid sy'n chwyddo'r ffigur. Caiff achosion eu hadolygu'n wythnosol a chânt eu trosglwyddo i'r Ganolfan Ddiogelu Integredig i wirio cysondeb y broses benderfynu. |
| | Canlyniad | | | 350 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 350 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS2b ⇧<br>Nifer y plant sy'n peidio â derbyn gofal (PDG) o fewn y cyfnod.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CFS2. Yn ogystal, rydym yn parhau i wneud cais am Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig lle mae hyn er lles pennaf y plentyn/ person ifanc ac yn unol â'i gynllun ar gyfer sefydlogrwydd. |
| | Canlyniad | | | 111 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 111 | |
| | Enw. | | | | |
| CH015 ⇧<br>Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chefnogaeth ar ddiwedd y cyfnod.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Er bod gostyngiad yn nifer y Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth sydd ar waith o'i gymharu â'r chwarter diwethaf, mae cyfran y plant a'r bobl ifanc sydd â Chynllun Gofal a Chefnogaeth yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgwylid. |
| | Canlyniad | | | 886 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 886. | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CH026 ⇩<br>Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) yr awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Yn gyffredinol, mae nifer y plant ar y gofrestr wedi aros yn gyson ar draws y flwyddyn hon, ond mae'n is na'r blynyddoedd blaenorol. |
| | Canlyniad | | | 200 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 200 | |
| | Enw. | | | | |
| CH036 ⇧<br>Nifer y plant sy'n cael eu tynnu oddi ar Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) yr Awdurdod Lleol o fewn y cyfnod.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CH026. |
| | Canlyniad | | | 314 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 314 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CH037b ⇩<br>Nifer y plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal (PDG) o fewn y cyfnod. | COG | | | | Gweler y sylw ar gyfer CFS2. |
| | Canlyniad | | | 84. | |
| DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adrodd llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 84 | |
| | Enw. | | | | |

## Addysg a Sgiliau 17-22

Parhaodd pandemig COVID-19 i effeithio ar berfformiad mewn addysg, yn enwedig ar gyfer grwpiau blwyddyn arholiadau. Ym mlwyddyn academaidd 2020-2021, disodlwyd arholiadau cyfnod allweddol 4 gan raddau a bennwyd gan y ganolfan, gan ei gwneud yn anodd cymharu â pherfformiad blaenorol. Cafodd y gwaith o gasglu a choladu canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer cyfnodau allweddol cynharach mewn addysg ei ganslo gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ac mae hefyd wedi'i ganslo ar gyfer 2022.

Effeithiwyd yn negyddol ar bresenoldeb yn ystod blwyddyn bandemig arall ym mlwyddyn academaidd 2020-2021. Mae effaith barhaus hunanynysu wedi gostwng presenoldeb ar draws ysgolion. Mae bron pob ysgol o leiaf bum pwynt canran yn is na'r cyfraddau presenoldeb arferol. Mae Swyddogion Lles Addysg yn parhau i fonitro'n ofalus ac yn cefnogi teuluoedd i annog plant yn ôl i'r ysgol. Ni chynhaliwyd y casgliad arferol o ddata presenoldeb gan Lywodraeth Cymru yn 2021, a bydd hefyd yn cael ei atal ar gyfer 2022.

Mae lefel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol. Yn 2021, cofnodwyd bod 1.6% o'r rheini a adawodd Blwyddyn 11 yn NEET. Mae'r prosiect Cynnydd yn parhau i gefnogi plant sydd mewn perygl o fod yn NEET, gan ddarparu ymyriadau wedi'u teilwra i ddisgyblion unigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 i'w hatal rhag ymddieithrio rhag dysgu.

Mae gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y Proffiliau Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP) bellach wedi'u cwblhau ac yn barod i ysgolion i helpu i nodi dysgwyr y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt.

Mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos wedi bod yn faes i'w wella'n barhaus. Fodd bynnag, mae'r newid i roi rheolau newydd ar waith yn raddol yn golygu y bydd y mesur perfformiad hwn yn cael ei ddisodli'n llawn cyn bo hir a bydd yn canolbwyntio ar gynlluniau a elwir yn gynlluniau datblygu unigol (CDUau) ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae blaenoriaethau Cynllun Strategol ADY Abertawe, gan gynnwys newidiadau sydd eu hangen i fodloni goblygiadau Deddf ADYTA 2018 yn datblygu'n dda gydag amrywiaeth o welliannau i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r system newydd i reoli'r broses o greu a rheoli CDUau, yn ogystal â mapio'r ddarpariaeth ar gyfer PPI, yn datblygu'n dda.

Mae Partneriaeth Sgiliau Abertawe (PSA) yn parhau i ganolbwyntio ar bum thema Statws Dinas Ddysgu UNESCO Abertawe, atal NEET, cefnogaeth i swyddi yn y dyfodol, arfer effeithiol mewn dysgu o bell a datblygu gallu digidol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion lles mewn perthynas ag addysg a sgiliau yn y dyfodol, bydd yn bwysig canolbwyntio ar y meysydd a nodir isod.


Mae'r heriau lleol a chenedlaethol o ran rheoleiddio ymddygiad disgyblion yn dilyn y pandemig wedi arwain at fwy o ddisgyblion yn cael eu gwahardd o ysgolion. Yn Abertawe, rydym yn mynd i'r afael â'r her hon drwy ddatblygu strategaeth i leihau gwaharddiadau a chyfrannu at strategaeth lleihau trais ymhlith ieuenctid. Mae'r ddwy strategaeth yn gofyn am gydweithio ac integreiddio agos ar draws gwasanaethau yn y cyngor.

Yn ogystal, bydd ymateb i adolygiad thematig Estyn ar aflonyddu a cham-drin cyfoedion sy'n nodi nad yw llawer o blant yn dweud wrth eu hathrawon am aflonyddu yn fater allweddol. Bydd datblygu ymagwedd ysgol gyfan at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) drwy ein gwaith gydag arweinwyr Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol.


Mae asesu lles emosiynol a meddyliol plant a staff mewn ysgolion yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol yn y cynllun adfer. Mae rhoi Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 ar waith yn raddol ym mis Ionawr 2022 a thu hwnt yn ogystal â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys pwyslais ar gwricwlwm lleol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ym mis Medi 2022 yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol, gyda gwerthuso parodrwydd yn ystyriaeth allweddol. Bydd cefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth yn cael ei ddarparu gan y partner cyflwyno allweddol rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd yn bwysig monitro llwyddiant y bartneriaeth newydd yn ofalus. Wrth i arolygiadau ysgolion ailddechrau, bydd yn bwysig monitro a gwerthuso arweinyddiaeth, darpariaeth a chynnydd dysgwyr yn gadarn.


Bydd pwysigrwydd adolygu a monitro effaith gwasanaethau i ddysgwyr sy'n agored i niwed oherwydd profiad niweidiol yn ystod plentyndod, tlodi, anghenion dysgu ychwanegol, lles meddyliol, anabledd, iaith, llythrennedd/cyfathrebu a phresenoldeb isel yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol.

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA4 ⇧<br>Prentisiaethau - nifer y prentisiaethau neu hyfforddeion a ddechreuodd yn y cygnor | COG | GWYRDD | | | Mae'r canlyniadau'n dibynnu ar y rhaglen o brosiectau a'r cyfleoedd sydd ar gael. |
| | Canlyniad | 17 | 38 | 30 | |
| | Targed | 16 | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 17 | 38 | 30 | |
| | Enw. | | | | |
| EDCP18d ⇩<br>Pobl ifanc y gwyddys wu bod yn NEET (nid ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 1.96% | 1.53% | 1.62% | |
| | Targed | 2.10% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 47 | 37 | 39 | |
| | Enw. | 2395 | 2426 | 2410 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU008c ⇩<br>Nifer y gwaharddiadau parhaol ar gyfer ysgolion uwchradd | COG | | | | Mae'r pandemig wedi effeithio ar y mesur hwn, oherwydd y bu ysgolion ar gau am ran o'r cyfnod adrodd. |
| | Canlyniad | 28 | 17 | 17 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | SEFYDLOG | |
| | Rhif. | 28 | 17 | 17 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU010c ⇩<br>Cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol fesul 1000 o ddisgyblion ar gyfer ysgolion uwchradd | COG | GWYRDD | | | Mae'r pandemig wedi effeithio ar y mesur hwn, oherwydd y bu ysgolion ar gau am ran o'r cyfnod adrodd. |
| | Canlyniad | 61.98 | 16.67 | 38.27 | |
| | Targed | 60.00 | | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 759. | 236 | 540 | |
| | Enw. | 12246 | 14160 | 14112 | |



EDU015a ⇧


Canran y datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU015a | COG | COCH | | | Mae COVID-19 wedi parhau i fod â rôl i'w chwarae wrth ohirio datganiadau terfynol, yn enwedig o ran sicrhau cyngor gan y gwasanaethau iechyd. Mae ailstrwythuro wedi arwain at newidiadau staffio a cholli awdur y datganiad gan fod yr adran wedi gorfod paratoi ei hun ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf ADYTA 2018. |
| | Canlyniad | 5.03% | 11.92% | 43.48% | |
| | Targed | 80.00% | | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 10 | 23 | 60 | |
| | Enw. | 199 | 193 | 138 | |


EDU015b ⇧

Canran y datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU015b | COG | COCH | | | Mae COVID-19 wedi parhau i fod â rôl i'w chwarae wrth ohirio datganiadau terfynol, yn enwedig o ran sicrhau cyngor gan y gwasanaethau iechyd. Mae ailstrwythuro wedi arwain at newidiadau staffio a cholli awdur y datganiad gan fod yr adran wedi gorfod paratoi ei hun ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf ADYTA 2018. |
| | Canlyniad | 13.7% | 35.9% | 63.2% | |
| | Targed | 90.00% | | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 10 | 23 | 60 | |
| | Enw. | 73. | 64 | 95 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| PAM034 ⇧<br>Canran y disgyblion blwyddyn 11 a gofrestrwyd TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) | COG | OREN | | | |
| | Canlyniad | 11.22% | 10.72% | 11.86% | |
| | Targed | 11.44% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 274 | 263 | 292 | |
| | Enw. | 2441 | 2453 | 2462 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV07 ⇧<br>Nifer yr wythnosau o hyfforddiant i weithwyr newydd a gyflawnwyd drwy'r cymalau budd cymunedol | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 2603 | 6380 | 7839 | |
| | Targed | 1500 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 2603 | 6380 | 7839 | |
| | Enw. | | | | |



Mae chwarter 4 a chanlyniadau blynyddol yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae rhai dangosyddion yn dangos tueddiadau ar i lawr o'u cymharu â chanlyniadau ar gyfer y llynedd, neu yn erbyn y cyfnod monitro diwethaf. Lle y bo'n berthnasol, darparwyd sylwadau esboniadol yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol sy'n bodoli. Fel yr adroddwyd yn flaenorol yn chwarteri 1, 2 a 3, mae effeithiau COVID-19 ar y sector adeiladu'n parhau i gael effaith ar gyflwyno rhaglenni. Mae prinder llafurlu medrus a di-grefft, ynghyd â phroblemau cyflenwi ar gyfer rhai deunyddiau adeiladu, yn cael effaith ar gostau rhaglenni ac adeiladu. Mae deialog yn parhau gyda'n contractwyr ac mae'r holl wrthfesurau sydd ar gael yn cael eu harchwilio i liniaru effeithiau'r problemau hyn.

Er gwaethaf hyn, mae ein prif flaenoriaethau adfywio wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol ar y safle yn ystod chwarter 4. Yn benodol, mae gwaith Bae Copr wedi parhau i wneud cynnydd gweladwy sylweddol. Fel yr adroddwyd eisoes, mae gwaith wedi'i gwblhau ar adeiladu arena sydd â lle i 3,500 o bobl ochr yn ochr â chwblhau safle Bae Copr. Dyfarnwyd y contract i weithredu'r arena i The Ambassador Theatre Group ac mae artistiaid fel Alice Cooper, Rob Brydon, Diversity, The Cult a Katherine Ryan wedi'u cadarnhau ar gyfer rhaglen yr arena ar gyfer 2022. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 8 Mawrth 2022 fel rhan o lansiad agoriadol, ac mae enwau amlwg iawn fel John Bishop a Royal Blood eisoes wedi perfformio'u sioeau lle gwerthwyd pob tocyn. Mae'r bont newydd dros Oystermouth Road, maes parcio aml-lawr newydd a'r parc arfordirol 1.1 erw hefyd wedi agor i'r cyhoedd. Mae elfennau eraill o'r cynllun, gan gynnwys y bloc preswyl, maes parcio aml-lawr y gogledd, a neuadd yr eglwys i gyd wedi'u datblygu'n sylweddol ac yn agosáu at gael eu cwblhau'n ymarferol

Mae proses gaffael Adfywio Abertawe bellach wedi'i chwblhau ac mae contractau cyfreithiol bellach wedi'u cyfnewid i gwblhau'r broses o benodi Urban Splash yn bartner datblygu sector preifat y cyngor ar gyfer cyflwyno cam nesaf y safleoedd strategol. Mae hon yn nodi pennod newydd gyffrous yn nhaith adfywio Abertawe, gan ddod ag adnoddau newydd ac arbenigedd datblygu i'r ddinas. Mae'r gwaith dylunio wedi dechrau ar safleoedd cam 1.

Mae prosiect Hwb y Sector Cyhoeddus yn hen adeilad BHS hefyd wedi gwneud cynnydd da. Mae caniatâd cynllunio bellach wedi'i sicrhau ac mae'r cynnig cyllid "Trawsnewid Trefi" wedi dod i law mewn egwyddor. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar adeilad Hwb Cyflogaeth Ffordd y Brenin i godi datblygiad swyddfa uwch-dechnoleg pwysig, newydd a fydd yn darparu lle ar gyfer 600 o swyddi yng nghanol dinas Abertawe. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau'n gynnar yn 2023, a bydd y datblygiad pum llawr yn cynnwys 114,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr masnachol gan ddarparu cyfleoedd cydweithio hyblyg a swyddfeydd i fusnesau technoleg, digidol a chreadigol arloesol. Bydd y datblygiad yn ddi-garbon ac yn werth £32.6 miliwn y flwyddyn i economi Abertawe. Bydd yn cynnwys cysylltedd digidol o'r radd flaenaf, teras ar y to, gwyrddni a balconïau sy'n edrych dros ganol y ddinas a Bae Abertawe.
Mae cwblhau prosiect Ailddychmygu Wind Street wedi gwella'r mannau cyhoeddus ac mae wedi cynnwys gosod celfi stryd newydd, palmentydd, goleuadau a gwelliannau amgylcheddol. Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer adfywio Sgwâr y Castell gyda chynlluniau ar gyfer ffynnon/jetiau dwr newydd, ychwanegu mannau gwyrdd ac amrywiaeth o gaffis a bwytai newydd sy'n edrych dros y sgwâr. Mae gwaith dylunio manwl yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i lywio'r broses ceisiadau cynllunio, a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2023. Rydym hefyd wedi gwneud cyfres o welliannau i Farchnad Abertawe, gan gynnwys gwella mynedfeydd a'r mannau cyhoeddus, agor gardd farchnad a chomisiynu rhywfaint o waith celf i wella golwg yr ardal.

Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd ym mhrosiect Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod gyda gwaith cragen a chraidd wedi'i dargedu ar gyfer mis Gorffennaf 2022. Mae adeilad eiconig Ty Injan Musgrave wedi'i adfer ac mae gwaith atgyweirio Ty Injan Vivian ar y gweill. Mae gwaith hefyd wedi parhau ar y bont wrthbwys 110 oed, gan weithio'n agos gyda Cadw. e Daeth adeilad hanesyddol ond adfeiledig Theatr y Palace i feddiant y cyngor, gan arbed rhan o dreftadaeth Abertawe a gweithredu fel catalydd adfywio ar gyfer rhan uchaf y Stryd Fawr. Sicrhawyd cyllid grant ac mae gwaith dylunio ac adnewyddu ar y gweill. Bydd y gweithle digidol arloesol yn cynnig cartref i fusnesau sy'n tyfu yn y sectorau technoleg, digidol a chreadigol. Mae'r Penawdau Telerau eisoes wedi'u llofnodi gyda'r prif denant Tramshed Tech.
Mae gwaith hefyd wedi parhau gyda Skyline Enterprises a'u nod yw creu atyniad gondola gyda thraciau ceir llusg, weiren wib a chyfleusterau i ymwelwyr ar Fynydd Cilfái. Mae'r cwmni wedi datblygu cynigion, sy'n cynnwys gwella mynediad ac ecoleg yr ardal. Roedd y Penawdau Telerau wedi'u llofnodi gan y cyngor ac mae gwaith bwrdd Skyline a gwaith arolygu wedi gwneud cynnydd da. Er bod pandemig COVID-19 wedi arwain at gwmni Skyline yn atal ei holl brosiectau dros dro ledled y byd, mae Skyline yn bwriadu mynd ar drywydd ei ddatblygiad arfaethedig ar Fynydd Cilfái - yn amodol ar sicrhau cefnogaeth Llywodraeth

Cymru i'w cynnig.

Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r gwaith i gyflawni camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Adfer Economaidd Abertawe hefyd yn parhau. Mae'r cynllun gweithredu, a baratowyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, ac a gefnogir gan ddefnyddio cronfa adfer economaidd y cyngor, yn cynnwys amrywiaeth o fentrau i ysgogi gweithgarwch economaidd a chadernid yn economi leol Abertawe. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo astudiaeth ailbwrpasu canol y ddinas ac mae prosiectau cychwynnol yn cael eu hystyried.

Mae'r cyngor hefyd wedi arwain y gwaith o lunio'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol mewn cydweithrediad ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae wedi'i fabwysiadu gan y 4 awdurdod lleol yn y rhanbarth a'r CBC. Mae'r strategaeth a'i chynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi buddsoddiad prosiect trawsnewidiol yn y rhanbarth a fydd yn denu arian o raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a ragwelir yn y dyfodol.

Oherwydd effaith pandemig COVID-19, estynnodd Llywodraeth Cymru'r cyfnod cydymffurfio er mwyn i awdurdodau lleol gwblhau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Diwygiwyd y dyddiad cwblhau i 31 Rhagfyr 2021, a oedd yn cyfateb i ddiwedd C3. Pennwyd rhaglen buddsoddi cyfalaf SATC ar gyfer 2021-22 i ddechrau ar £46.875m, a oedd yn cynnwys £12m o lithriant o alldro ariannol diwedd blwyddyn pandemig COVID-19 y llynedd.

Gwelwyd llithriant pellach yn ystod y flwyddyn gyfredol, unwaith eto oherwydd effaith barhaus COVID-19 a phroblemau'n ymwneud â phrinder adnoddau contractwyr, llafurlu medrus a deunyddiau sydd wedi effeithio ar gyflwyno rhaglenni. Cyflawnwyd cyfanswm gwariant o £32m ar gyfer prosiectau SATC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sy'n cynrychioli 96.5% o darged diwygiedig y gyllideb. Mae'r nodau a'r amcanion buddsoddi wedi aros yr un peth â'r blynyddoedd blaenorol; sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da, yn effeithlon yn thermol, yn ddiogel ac yn diwallu anghenion unigolion.

Bydd y Gwasanaeth Tai yn coladu data o waith gwella a gwblhawyd i ddangos ei fod wedi llwyddo i gydymffurfio â SATC fel y'i diffinnir mewn canllawiau statudol. O 1 Ebrill 2022, bydd y rhaglen gyfalaf ar gyfer SATC yn trosglwyddo o gam targed cydymffurfio i gyfnod cynnal a chadw SATC. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaethau presennol SATC a bydd yn ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol yr haf hwn cyn cyflwyno rheoliadau a chanllawiau diwygiedig, a elwir yn SATC2.

Bydd canllawiau diwygiedig SATC2 yn cyflwyno targedau datgarboneiddio a diogelwch tân ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023. Bydd rhaglen gyffredinol SATC yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at fanteision cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth. Byddwn yn adrodd ar y cyfleoedd recriwtio a hyfforddi a ddarparwyd gan raglen SATC yn ystod 2021-22 yn ddiweddarach eleni.

Mae Rhaglen Rhagor o Gartrefi'r cyngor, sy'n canolbwyntio ar ddarparu tai cyngor newydd, yn edrych ar ddyhead o gyflwyno 1,000 o dai fforddiadwy newydd mewn 10 mlynedd. Ar ôl cwblhau 34 o gartrefi yn 20/21, mae'r gwaith yn parhau ar 25 o gartrefi yn Hill View Crescent yn y Clâs, y disgwylir iddynt gael eu cwblhau yng ngwanwyn 2022. Mae'r cynllun hwn hefyd wedi derbyn £1.5m o Gyllid Tai Arloesol, a fydd yn ariannu'r technolegau adnewyddadwy i barhau â'r thema Cartrefi fel Gorsafoedd Pwer.

Fel rhan o gynllun Cam 2 Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd, mae'r cyngor hefyd wedi datblygu 8 o gartrefi un ystafell wely ar hen safle addysg yn Uplands. Mae'r gwaith o addasu'r adeilad presennol wedi'i gwblhau ac mae bellach yn cael ei feddiannu, a bydd y 4 pod sy'n cael eu cynhyrchu oddi ar y safle yn barod i'w meddiannu ym mis Ebrill 2022. Mae 20 caffaeliad 1 ystafell wely arall wedi'u cynllunio ar gyfer 22/23, yn ogystal â 6 chaffaeliad gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Mae gwaith hefyd wedi dechrau yn West Cross i ddatblygu 6 byngalo, sydd hefyd wedi derbyn cyllid y Rhaglen Tai Arloesol (RhTA) i gynnwys y technolegau adnewyddadwy ychwanegol.

Mae cais cynllunio wedi'i gymeradwyo i droi hen eiddo'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngorseinon yn 2 gartref â 3 ystafell wely, ac mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Gorffennaf. Mae'r hen safle addysg yn Nhy Brondeg hefyd wedi'i gaffael i'w ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy, a bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddymchwel i wneud lle ar gyfer tai fforddiadwy newydd. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo adfeddiant 3 safle o'r Gronfa Gyffredinol i'w datblygu ar gyfer tai fforddiadwy, ac mae cynlluniau cysyniadol bellach yn cael eu datblygu ar gyfer y safleoedd hyn. Mae'r gwaith o ddymchwel hen SDR y Clâs bellach wedi'i gwblhau fel rhan o ddatblygiad Creswell Road sy'n cynnwys 9 o gartrefi newydd.

Mae'r cyngor hefyd yn gwneud cynnydd o ran caffael partner neu bartneriaid datblygu i adeiladu tai deiliadaeth cymysg ar 2 safle sy'n eiddo i'r cyngor ym Mhenderi, gan fwyafu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion lleol. Mae'r cyngor hefyd wedi caffael tîm amlddisgyblaethol i ddarparu uwchgynllun ar gyfer adfywio safle mawr sy'n eiddo i'r Adran Tai. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, ond ymestynnwyd yr amserlen wrth i'r digwyddiadau ymgynghori i breswylwyr, ymweliadau safle ac arolygon a drefnwyd gael eu gohirio oherwydd COVID. Mae'r cyngor hefyd wedi penodi tîm amlddisgyblaethol i ddatblygu uwchgynllun ar gyfer 4 o safleoedd sy'n agos at ei gilydd, a ddylai gyrraedd y cam cais cynllunio erbyn diwedd 2022.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio yng nghanol Ch4, roedd modd ailagor drysau'n ddiogel a lleihau'r cyfyngiadau, a arweiniodd at ailagor Theatr y Grand yn llwyddiannus, gyda chefnogaeth gadarn gan y gynulleidfa. Mae gwaith wedi parhau yn y cefndir i adnewyddu'r cyntedd i gyflwyno Swyddfa Docynnau a Choffi/ Arlwyo cyfun mewn partneriaeth â Bragdy Gwyr, ochr yn ochr â Chyngor Hil Cymru yn meddiannu mannau allweddol gyda'r nod o amrywio'r defnydd, a chwmni cynhyrchu newydd preswyl, 'Uchelgais Grand', yn defnyddio'r Awditoriwm i ddatblygu talent. Bydd yr heriau rhaglennu o aildrefnu sioeau a diffyg argaeledd o ganlyniad i aflonyddwch y pandemig yn parhau i fod yn her drwy'r rhan fwyaf o 22/23. Rhagwelir, gyda rheolaeth dda a gwelliannau ffisegol i'r adeilad a chynnig y rhaglen, y bydd adferiad yn sefydlogi ac yn ategu'r cynnig cynyddol gyffrous ar draws y ddinas.

Mae cerrig milltir yn parhau i gael eu cyflawni o fewn prosiect Ysgubor 3G Cefn Hengoed ac wrth wella'r cyfleusterau hamdden ac addysg gorfforol cymunedol, gydag ymgeisydd a ffefrir wedi'i nodi, cynnydd mewn buddsoddiad cyfalaf a chefnogaeth ysgubol gan y Cabinet ym mis Mawrth, ac mae disgwyl i gais terfynol am gyllid gan y Sefydliad Pêl-droed gael ei gyflwyno rhwng canol a diwedd mis Ebrill.

Roedd cyfyngiadau parhaus ar y niferoedd a oedd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch cyfranogwyr ar draws canolfannau hamdden yn hwyhau'r heriau a wynebwyd gan y lleoliadau hyn. Effeithiodd hyn, yn ogystal â chyfradd COVID uchel yn y gymuned a gostyngiad cyffredinol mewn hyder cwsmeriaid, ar incwm a gwerthiant aelodaeth newydd yn ystod y cyfnod wedi'r Nadolig, a bydd effaith hyn yn parhau nes dechrau 22/23. Perfformiodd safleoedd cymunedol yn gryfach nag atyniadau canol y ddinas fel yr LC o ran aelodaeth campfa, ac mae hyn hefyd oherwydd ffactorau fel pobl yn parhau i weithio gartref a'r datblygiadau sylweddol yng nghanol y ddinas a oedd yn effeithio ar fynediad a pharcio. Yn hwyr yn y chwarter agorodd meysydd parcio newydd yr Arena a dylai'r ychwanegiad hwn, ynghyd â llwybrau cerdded wedi'u cwblhau i'r Glannau o'r Arena, fod o fudd i'r LC o ran argaeledd parcio a mynediad cyffredinol.

Parhaodd buddsoddiad Freedom Leisure yn y cyfleusterau hyn drwy Ch3, gyda chynlluniau sylweddol ar gyfer Pen-lan a'r LC, gan gynnwys gosod system clorin electronig Hyprolyser, sy'n cynnig ffordd fwy diogel, glan ac amgylcheddol gyfeillgar o glorineiddio'r pyllau. Bydd mesurau lliniaru fel hyn yn paratoi'r cyfleusterau i fod yn fwy cynaliadwy wrth symud ymlaen - gyda phrinder clorin ar draws y byd, a chynnydd sylweddol mewn costau, mae'r buddsoddiad bellach yn cael ei ystyried yn hanfodol. Mae prisiau ynni yn parhau i fod yn bryder i gyfleusterau hamdden sy'n defnyddio llawer o nwy a thrydan, ac er bod camau lliniaru eisoes wedi'u rhoi ar waith i leihau'r defnydd o ynni, mae chwyddiant y gyfradd fesul uned yn peri risg sylweddol i'r costau gweithredol, ac mae ystod o fodelau pellach o liniaru a buddsoddi'n cael eu datblygu gan Freedom i'w cyflwyno i'r cyngor maes o law.

Drwy'r chwarter dechreuodd ymgynghorwyr ar y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu asesiad o anghenion ac arfarniad opsiynau mewn perthynas â Pharc Chwaraeon Bae Abertawe ym meysydd chwarae Brenin Siôr V. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd a'n hymdrechion i ddatblygu opsiynau i wella'r safle a'r cynnig hamdden, mewn partneriaeth â'r Brifysgol, er mwyn gwella'r gymuned, perfformiad a chwaraeon myfyrwyr/addysgol, wedi'u cyflwyno dan un model partneriaeth. Yn gysylltiedig â hyn, cwblhawyd gwaith i osod arwyneb newydd sail dwr ar y cae hoci is yn y Parc Chwaraeon, sydd bellach yn ansawdd safonol Olympaidd o Tokyo 2020, a ariannwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Clwb Hoci Abertawe a Hoci Cymru. Dechreuodd hefyd y gwaith i ddisodli'r arwyneb chwarae, y ffensys, y llifoleuadau a'r pyst chwaraeon ac offer yng Nghanolfan y Ffenics, Townhill, gyda chyllid gan y Gronfa Cadernid Economaidd, er budd y gymuned leol. Bydd ymddiriedolaeth Canolfan y Ffenics yn parhau i reoli a chynnal y cyfleuster ar ôl ei gwblhau ar ddiwedd Ebrill/dechrau Mai.

Roedd y galw am wasanaethau fel cytiau traeth wedi parhau i gynyddu ar ôl y pandemig a pharhaodd hyn yn Ch4 gyda cheisiadau ar gyfer 22/23 yn rhagori ar 1,000, er mai llai nag 80 o gytiau traeth tymhorol sydd ar gael. Gyda nifer o gytiau ar brydles bellach yn dod â'u cylch prydles 10 mlynedd i ben ac yn cael eu dychwelyd i'r cyngor, gellir ystyried ymhellach a oes modd adnewyddu'r stoc hyn ymhellach.

Roedd Chwarter 4 hefyd yn gyfnod hynod brysur i'r tîm Rheoli Cyrchfannau a Marchnata yn dilyn cwblhau'r 3 phrosiect a ariennir gan y GCE - Grant Twristiaeth (cefnogwyd 8 prosiect), lansio'r Llwyfan Marchnata Newydd (fideos TikTok ar gael yn ôl y galw a chyfryngau awyr agored) a gwarantu ffioedd recriwtio Partner Marchnata (cefnogwyd 202 o fusnesau) - yn llwyddiannus. Yn ogystal, cyhoeddodd y tîm y Llawlyfr i Ymwelwyr ar gyfer 2022/23 gyda 200,000 o gyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg wedi'u hargraffu mewn pryd ar gyfer gwyliau'r Pasg.


Gwnaeth y nifer uchaf erioed o bobl ymweld â gwefan visitswanseabay.com (o gymharu â 2019) ac roedd y cynnydd mewn ymgysylltiad wedi arwain at ddiwedd cadarnhaol i'r flwyddyn ar gyfer y sector twristiaeth gyda nifer y rheini a oedd yn edrych ar y tudalennau'n codi 56% i 2.7 miliwn, y rheini a oedd yn defnyddio'r wefan yn codi 28% i 608,000 a nifer y sesiynau'n cynyddu 32% i 829,000. Mae'r wefan yn parhau i werthu tocynnau digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau mawr, tocynnau ar gyfer Theatr y Grand a Neuadd Brangwyn. Roedd cefnogaeth farchnata ar gyfer digwyddiadau'n cynnwys digwyddiad llwyddiannus Gorymdaith y Nadolig a'r digwyddiad Croeso (Dydd Gwyl Dewi) yng nghanol y ddinas. Roedd ein hymgyrchoedd Joio tymhorol yn ystod y cyfnod hefyd yn cefnogi gwasanaethau a digwyddiadau eraill ac maent yn parhau i gael eu cydnabod fel ymgyrchoedd ymwelwyr dydd y cyngor i annog preswylwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol, a rhoi gwybod iddynt am y digwyddiadau hyn. Mae'r tîm yn gweithio ar draws sectorau yn gynyddol, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Celfyddydau canol y ddinas a gweithio gyda darparwyr digwyddiadau mawr yn barod ar gyfer haf 2023, sydd wedi arwain at ddatblygu 'brand digwyddiadau' newydd i harneisio'r 3 digwyddiad chwaraeon mawr a gynlluniwyd ar gyfer yr haf hwn, a amlygwyd isod.

Roedd cyfnod prysur y Nadolig yn cynnwys Gwledd y Gaeaf ar y Glannau newydd ac adnewyddedig a ddenodd dros 150,000 o ymwelwyr, wedi'i dilyn gan gyfnod yr un mor brysur ar ddechrau'r flwyddyn newydd yn Ch4. Ochr yn ochr â'u rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau a goruchwyliaeth gymunedol a thrydydd sector, gan gynnwys cefnogi agoriad gweinidogol swyddogol Bae Copr a'r Arena; eu digwyddiadau cyhoeddus cyntaf ac ymweliad Brenhinol, roedd y Tîm Digwyddiadau Arbennig yn gyfrifol am y croen digidol o amgylch Arena Abertawe, yr oedd angen amser ac ymdrech sylweddol i ddeall ei ymarferoldeb, ei allu a sut i'w ddefnyddio orau. Mae'r ased hwn eisoes wedi bod yn boblogaidd gydag artistiaid gwadd a chyfryngau cymdeithasol a bydd yn ategu'r asedau digidol eraill sydd wedi/sy'n cael eu datblygu yng nghanol y ddinas ac a fydd, yn unigol ac ar y cyd, yn gallu darparu profiad digwyddiadau y gellir ymgolli'n llawn ynddo yn y dyfodol.


Fel y soniwyd uchod, gwelwyd digwyddiad deuddydd poblogaidd Croeso yn dychwelyd yn ystod y cyfnod, sy'n dathlu popeth sy'n ymwneud â Dydd G?yl Dewi a diwylliant Cymru - gydag adloniant byw unwaith eto yn dychwelyd i ganol y ddinas, ynghyd â marchnad cynnyrch Cymreig brysur a gorymdaith. I adlewyrchu'r ffaith bod angen i ganol y ddinas wedi ei adfywio gynnwys cydweithredu ar draws sectorau, ariannodd Cymru Greadigol y gwaith o greu Hwb Creadigol newydd i'r de-orllewin, i'w leoli yn Abertawe. Mewn cydweithrediad â busnesau lleol a Phrifysgol Abertawe, mae cam cyntaf yr hwb wedi ei osod yn hen siop gerddoriaeth Cranes, yr oedd y tîm Digwyddiadau wedi goruchwylio'r gwaith o'i hail-bwrpasu fel 'labordy' digidol a diwylliannol sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd ymgysylltu ar gyfer artistiaid lleol. Mae cyfnodau preswyl artistiaid gyda'r weledigaeth o gau'r bwlch sgiliau ar y gweill ar hyn o bryd gyda'n sector creadigol lleol a'r rheini sy'n gweithio mewn meysydd digidol er mwyn i ni allu wireddu potensial canol y ddinas fel dinas greadigol wrth symud ymlaen. Caiff hyn ei ategu gan sawl prosiect GCE sydd dan gomisiwn, gan gynnwys llwyfan symudol a gwelliannau i'r Amffitheatr ym Mae Copr, ochr yn ochr â pharhad y gefnogaeth ar gyfer digwyddiadau cymunedol, gosodiadau, a masnachu parhaus a defnyddio'r awyr agored ar gyfer adferiad COVID. Rydym mewn sefyllfa dda i sicrhau hyn gyda rhaglen brysur a chyffrous wedi'i chynllunio ar gyfer 2022, gan gynnwys Sioe Awyr Cymru boblogaidd, cyngherddau Parc Singleton a rhai digwyddiadau newydd sbon gan gynnwys Ironman 70.3, a werthodd pob tocyn mewn amser record, G?yl Parachwaraeon a Phencampwriaethau Para Tri y Byd.

Roedd cynnydd o ran ein cyfranogiad yng Ngwyl 'Unboxed' yn cynnwys nodi adeiladau a straeon allweddol yn y gymuned ar gyfer y llwybr llenyddiaeth/hanes ar y cyd â Llyfrgelloedd Abertawe ac yn yr un modd, ar gyfer The World Reimagined, cynhaliwyd digwyddiadau nawdd a briffiau cymunedol a gwahoddwyd artistiaid er mwyn mwyafu cyfranogiad. Rydym bellach yn y broses o ddarparu hyfforddiant a chymorth adnoddau i athrawon, artistiaid a grwpiau cymunedol, gan gytuno ar y llwybr a'r straeon 'hanes cymdeithasol' i gyd-fynd â'r llwybr celfyddydol cyhoeddus hwn yn ystod misoedd y dyfodol.


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA1 ⇧<br>Nifer y proseictau sy'n cynnwys cymalau budd Cymdeithasol | COG | GWYRDD | | | Mae'r canlyniadau'n ddibynnol ar y rhaglen o brosiectau a'r math sydd ar gael |
| | Canlyniad | 27 | 23 | 21 | |
| | Targed | 20 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | DYRWIO | |
| | Rhif. | 27 | 23 | 21 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CTT4 ⇧<br>Twristiaeth - cyfanswm effaith economaidd Twristiaeth I Abertawe (£m) | COG | GWYRDD | | | Cafwyd yr adroddiad STEAM diwethaf yn 2020 ac effeithiwyd ar y canlyniadau gan y pandemig |
| | Canlyniad | 461.48 | 143.09 | 150.49 | |
| | Targed | 456.69 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 461.48 | 143.09 | 150.49 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC2 ⇧<br>Canran yr holl geisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir | COG | OREN | | | Mae angen i geisiadau gyd-fynd â chyfyngiadau polisi cynllunio defnydd tir. |
| | Canlyniad | 81.48% | 100.00% | 94.74% | |
| | Targed | 85.00% | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 22 | 13 | 18 | |
| | Enw. | 27 | 13 | 19 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC5 ⇧<br>Cyfanswm yr arwynebedd llawr masanachol (m2) sydd wedi'I greu nghanol y Ddinas ar gyfer creu swyddi | COG | COCH | | | Cafwyd 480 metr sgwâr o'r cynllun yn 7 Sgwâr y Castell. Mae 10 cynllun yn parhau'n fyw ar y safle ac yn datblygu. |
| | Canlyniad | 1001 | 2056 | 480 | |
| | Targed | 1315 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 1001 | 2056 | 480 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC6 ⇧ Crewyd nifer o unedau tai Newydd yng Nghanol Dinas Abertawe o ganlyniad I gyllid y Rhaglen Targedau Buddsoddiad mewn Adfywio | COG | COCH | | | Mae pedair uned a gwblhawyd yn ymwneud â'r cynllun yn 32 Ffordd y Brenin. Mae 6 chynllun yn parhau'n fyw ar y safle ac yn datblygu. |
| | Canlyniad | 15 | 70 | 4 | |
| | Targed | 39 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 15 | 70 | 4 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC7 ⇩ Amserlen gyfartalog y Chwilladau Prisiannau Tir a gwblhawyd yb ystod y cyfnod | COG | GWYRDD | | | Roedd angen dyrannu adnoddau sylweddol i brosiect mudo data'r Gofrestrfa Tir. |
| | Canlyniad | 4.74 | 3.59 | 4.62 | |
| | Targed | 10.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 4.74 | 3.59 | 4.62 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EP28 ⇧<br>Canran yr holl geisiadau Cynllunio y penderfynwyd o fewn 8 wythnos | COG | GWYRDD | | | Mae goblygiadau COVID wedi effeithio ar berfformiad |
| | Canlyniad | 89.53% | 82.87% | 80.55% | |
| | Targed | 80.00% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | DYRWIO | |
| | Rhif. | 1718 | 1369 | 1723 | |
| | Enw. | 1919 | 1652 | 2139 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| ESD1 ⇧<br>Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud a phrosiestau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir new'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad | COG | GWYRDD | | | Gwerth buddsoddiad yw swyddogaeth graddfa a natur y prosiectau yn ystod y flwyddyn. Gan fod prosiectau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly hefyd y gwerth alldro. Felly nid yw'r duedd yn adlewyrchiad o berfformiad, ond y rhaglen ei hun. |
| | Canlyniad | 42 | 72 | 47.5 | |
| | Targed | 37 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 42 | 72 | 47.5 | |
| | Enw. | | | | |



Mae'r cynllun corfforaethol yn nodi ymrwymiad y cyngor i Drechu Tlodi er mwyn sicrhau bod pob person yn Abertawe yn gallu cyflawni'i botensial. Er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwn mae'r Strategaeth Trechu Tlodi corfforaethol yn sicrhau bod Trechu Tlodi'n fusnes i bawb.

Effaith barhaus COVID-19 - Trechu Tlodi

Mae effaith economaidd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y rheini sydd eisoes yn profi tlodi ac yn gyrru'r rheini a oedd mewn perygl o dlodi, i dlodi.

Budd-daliadau Lles

o Nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn Abertawe (Dwyrain/Gorllewin Abertawe a G?yr) 23,045 (Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2022)

o Pobl ar Fudd-daliadau Etifeddiaeth (Credyd Treth Plant / Budd-dal Tai / Cymhorthdal Incwm / Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm / Credyd Treth Gwaith) Gorllewin Abertawe: 4,312, Dwyrain Abertawe: 5,346 a G?yr: 3147 (Adran Gwaith a Phensiynau, Tach 2021)

o O ddechrau Mai 2022 bydd y rheini ar fudd-daliadau etifeddiaeth yn mudo i Gredyd Cynhwysol erbyn diwedd 2024. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y bydd 54% o bobl yn well eu byd pan fyddant yn symud i CC, a 35% o bobl yn waeth eu byd (tua 4,400 gan ddefnyddio ffigurau Tachwedd 2021) a bydd 11% yn gweld dim newid.

Amlygodd adroddiad Sefydliad Bevan ar 'Ddyled yn y Pandemig' (Medi 21) fod 10% o'r holl aelwydydd wedi cwympo ar ei hôl hi o ran talu bil rhwng Ionawr a Mai 2021 a dros yr un cyfnod roedd 17% o'r holl aelwydydd wedi benthyca arian. Bydd mwyafrif y boblogaeth yn benthyca arian ar ryw adeg, ond mae bod mewn dyled sy'n broblem, gan gynnwys cael trafferth gwneud taliadau a chael credyd uchel o'i gymharu ag incwm, yn effeithio'n negyddol ar fywydau pobl.

o Mae crynodiad o ôl-ddyledion mewn cartrefi incwm is: roedd y rheini a chanddynt incwm o lai na £40,000 yn llawer mwy tebygol o fod mewn ôl-ddyled ym mis Mai 2021 nag aelwydydd incwm uwch.

o Mae rhentwyr wedi bod yn llawer mwy tebygol o fynd i ddyled yn ystod y pandemig na pherchennog preswyl.

o Mae pobl anabl wedi bod ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn ôl-ddyled yn ystod cyfnod y pandemig na phobl nad ydynt yn anabl.

Canfu 'A snapshot of poverty in Winter 2021' Cymru a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2021 gan Sefydliad Bevan:

o Fod aelwydydd yn cael trafferth cael deupen llinyn ynghyd - nid oes gan bron pedwar o bob deg cartref yng Nghymru (39%) ddigon o arian i brynu unrhyw beth y tu hwnt i eitemau bob dydd, i fyny o 33% ym mis Mai 2021.

o Mae incymau'n dal i ostwng ond nid i bawb - Mae mwy na thair o bob deg aelwyd sydd ag incwm net o lai na £40,000 wedi gweld eu hincwm yn gostwng ers mis Mai 2021. I aelwydydd ag incwm net o fwy na £40,000, mae mwy nag un o bob pump wedi gweld eu hincymau'n cynyddu.

o Mae costau byw yn dal i godi - mae aelwydydd ledled Cymru wedi gweld eu costau byw yn cynyddu. Mae mwy na hanner wedi gweld cost bwyd yn cynyddu gyda mwy na chwech o bob deg wedi gweld cost eu cyfleustodau'n cynyddu.

o Mae Safonau Byw'n cael eu gwasgu - Mae miloedd o aelwydydd yn gorfod torri'n ôl a dogni'u defnydd o'r hanfodion sydd eu hangen ar bob un ohonom i fyw gydag urddas. Mae aelwydydd incwm isel, rhentwyr, pobl anabl, unig rieni ac oedolion rhwng 25 a 64 oed yn fwy tebygol o fod wedi gorfod torri'n ôl ar hanfodion pob dydd na grwpiau eraill.

o Mae'r effaith ar blant yn cynyddu - Mae mwy nag un o bob pum teulu â phlant wedi gorfod torri'n ôl ar eitemau i blant gan gynnwys llyfrau, teganau, cewynnau a dillad, tra bod un o bob deg teulu â dau o blant wedi gorfod torri'n ôl ar fwyd i blant.

o Mae dyled bersonol yn broblem fawr - Ers Mai 2021, mae 25 y cant o aelwydydd yng Nghymru wedi benthyca arian tra bod 12 y cant o aelwydydd yng Nghymru o leiaf un mis ar ei hôl hi o ran talu bil. Mae aelwydydd incwm isel, rhentwyr, pobl anabl, unig rieni, ac oedolion rhwng 25 a 64 oed yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi o ran talu bil neu o fod wedi benthyca arian nag eraill.

o Mae llawer o bobl yn poeni am golli'u cartrefi - Mae mwy nag un o bob ugain aelwyd yn poeni am golli'u cartref.

Costau Byw Cynyddol

o Cynyddodd costau byw 5.4% yn y 12 mis o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2021, y gyfradd gynnydd uchaf mewn 30 mlynedd. (SYG)

o Cynyddodd cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol ym mis Ebrill 2022 ac mae costau tanwydd a bwyd cartrefi wedi cynyddu'n sylweddol ac nid yw budd-daliadau na chyflogau wedi codi gyfuwch â chwyddiant.

o Darparwyd cymorth ychwanegol drwy daliadau costau byw i aelwydydd cymwys.

Cefnogaeth ar gyfer cyflogadwyedd

Mae nifer y bobl sy'n cael gwaith drwy gefnogaeth Cyflogadwyedd yn cefnogi'r camau amcan lles; sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gwaith, addysg a hyfforddiant ar ôl cyrraedd 16 oed a bod unigolion yn cael eu cefnogi i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth drwy gefnogaeth cyflogadwyedd cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae mwy o bobl wedi sicrhau gwaith eleni o'i gymharu â'r llynedd, gyda 481 o bobl wedi'u cefnogi i gael swydd. Gwnaed hyn drwy'r rhaglenni cefnogaeth cyflogadwyedd; Abertawe'n Gweithio, Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Y Di-waith Tymor Byr Gweithffyrdd a Gweithffyrdd+. Rydym yn parhau i weld cynnydd mewn swyddi gwag a chyflogaeth ar draws sawl sector.

Hawliau Budd-daliadau Lles

Y cam i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau diwygio Lles, gan gynnwys cefnogi pobl i hawlio'r budd-daliadau llawn y mae ganddynt hawl iddynt fel eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu hincwm drwy swm y budd-daliadau lles a godir drwy sicrhau hawliau, a hynny drwy waith y tîm Hawliau Lles. Cyfanswm y budd-daliadau a sicrhawyd yn ystod 21/22 oedd £1,139,249.25, gostyngiad o 24% ar gyfanswm 2020/21. Oherwydd y pandemig parhaus, parhaodd gostyngiad yn nifer yr apeliadau yn y tribiwnlys a gostyngodd gwerth y budd-daliadau a sicrhawyd. Ymatebodd y tîm i 817 o ymholiadau am fudd-daliadau a hyfforddwyd 231 o weithwyr cefnogi ganddynt. Maen nhw hefyd wedi cefnogi preswylwyr i fynd i'r afael â £77,670.63 o ddyled bersonol.

Gostyngiad Treth y Cyngor a Budd-dal Tai

Mae dangosydd perfformiad amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau newydd Gostyngiad Treth y Cyngor (GTC) a Budd-dal Tai (BT) wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd, tra bod yr amser prosesu ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer Gostyngiad Treth y Cyngor wedi gwella. Mae'r cynnydd yn yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd ar gyfer hawliadau BT/GTC yn adlewyrchu nifer o faterion gan gynnwys symud ceisiadau mwy syml am gymorth ariannol gyda rhent draw i Gredyd Cynhwysol. Y ceisiadau hynny sy'n aros gyda'r adran Budd-dal Tai yw'r achosion mwy cymhleth, yn enwedig y rheini ar gyfer llety â chymorth lle mae'n rhaid ystyried y taliadau rhent yn fanwl.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod y Gwasanaeth Budd-daliadau'n parhau i reoli grantiau ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn cael effaith sylweddol iawn ar amserau prosesu wrth i staff gael eu dargyfeirio i ffwrdd o'r swyddogaethau craidd i ddelio â'r taliadau hyn i ddinasyddion sy'n agored i niwed. Cafodd dros 18,000 o geisiadau am daliadau tanwydd gaeaf eu prosesu, gan arwain at daliadau gwerth £2.7m. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am weinyddu Taliadau Ynysu COVID y mae dros 18,000 o geisiadau wedi'u hasesu ar eu cyfer a thros £5.6m o daliadau wedi'u rhoi. Bydd y taliad Cost-Byw o £150 i aelwydydd cymwys yn dechrau cael ei dalu ym mis Ebrill 2022 a'r taliad Gofalwyr Di-dâl o fis Mai 2022. Mae'r effaith ar y gwasanaethau prosesu budd-daliadau craidd yn Abertawe, ac yn wir ym mhob ALl yng Nghymru, o'r angen i ddargyfeirio adnoddau i brosesu'r grantiau hyn, yn parhau i fod yn sylweddol iawn.

Mae gwelliannau yn yr amser ar gyfer prosesu newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer achosion Gostyngiad Treth y Cyngor yn arwydd o roi systemau awtomeiddio ychwanegol ar waith yn y gwasanaeth y bwriedir iddynt ddelio â'r nifer cynyddol o newidiadau sy'n deillio o'r gwaith a wneir yn fisol i ailasesu'r dyfarniadau Credyd Cynhwysol i'r sawl sy'n derbyn GTC.

Tai

Parhaodd y cyngor, ynghyd â phartneriaid yn y sector tai ac elusennau cefnogi, i ymateb i fynd i'r afael â digartrefedd ac mae llawer o bobl wedi cael cymorth i ddod o hyd i le i fyw a llawer yn symud ymlaen o lety dros dro brys i gartrefi mwy hirdymor. Cynyddodd y nifer cyfartalog o ddyddiau a dreuliwyd gan deuluoedd digartref â phlant mewn llety Gwely a Brecwast o'r adeg hon y llynedd oherwydd y pwysau parhaus ar lety dros dro ac mae teuluoedd yn cael eu symud i lety addas cyn gynted â phosib. Mae cynnydd wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd drwy ganiatâd cynllunio a chynnydd yn nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.

Sgiliau a Chymwysterau


Mae nifer y cymwysterau achrededig a enillwyd gan oedolion gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol wedi cynyddu eleni i 620 o'i gymharu â 450 y llynedd, er nad yw wedi cyrraedd lefelau cyn y pandemig eto. Effeithiwyd ar drefniadau cyrsiau a phresenoldeb gan COVID, ar gyfer mynychwyr a darparwyr y cyrsiau. Roedd 1,250 o ddysgwyr unigryw ar gyrsiau Dysgu Gydol Oes achrededig a heb eu hachredu yn ystod 2021/22, gyda 1,792 yn cofrestru ar gyrsiau, gan gynnwys llythrennedd digidol, cyrsiau Sgiliau Hanfodol a Dysgu am Oes (ieithoedd, lles a'r celfyddydau). Mae'r cyrsiau heb eu hachredu'n darparu llwybr i ddysgwyr symud ymlaen i gyrsiau dysgu pellach ac achrededig. Mae cydweithio rhwng Abertawe'n Gweithio, Dysgu Gydol Oes, Rhaglenni Cyflogadwyedd a phartneriaid wedi parhau i gynnig hyfforddiant a chymwysterau achrededig i gyfranogwyr er mwyn iddynt gael cyfleoedd gwaith.



Gweithio mewn partneriaeth

Mae Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe, Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe, Gr?p Llywio Cynhwysiant Ariannol a Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe yn parhau i gyfarfod, gan hwyluso'r broses o rwydweithio, rhannu arfer da, gwybodaeth, tueddiadau, newidiadau i wasanaethau a chyfleoedd newydd, gan annog cydweithio a chydweithredu mewn partneriaeth.


Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd dros £293,000 i 97 o brosiectau drwy'r Grant Tlodi Bwyd, Grant Urddas Mislif yn y Gymuned, Grant Cymorth i Aelwydydd a chyllid 'Men's Shed' i fynd i'r afael â thlodi ac unigedd cymdeithasol. Mae'r Prosiect Community Calling wedi dosbarthu 369 o ffonau clyfar wedi'u hailgylchu am ddim ynghyd â chontract blwyddyn lawn i bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Mae gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas y Plant a phartneriaid eraill yn Abertawe ar y Rhaglen Cefnogaeth Gymunedol Gydlynus wedi cefnogi lansio taflen 'Poeni am Arian' a datblygiad system brawf er mwyn atgyfeirio i bartneriaid.

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT01a ⇩ Cyflymder prosesu Budd-dal Tai: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau newydd. | COG | OREN | | | O ystyried trosglwyddo hawliadau Budd-dal Tai symlach i Gredyd Cynhwysol a'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID a wneir gan yr is-adran, mae'r cynnydd yn y dyddiau i brosesu hawliad Budd-dal Tai newydd yn ôl y disgwyl ac o fewn paramedrau rhesymol |
| | Canlyniad | 18.51 | 19.32 | 23.50 | |
|  | Targed | 18.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | DYRWIO | DYRWIO | |
| | Rhif. | 36119 | 42270 | 44752 | |
| | Enw. | 1951 | 2188 | 1904 | |
| HBCT01b ⇩ Cyflymder prosesu Budd-dal Tai: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hysbysiadau o newid mewn amgylchiadau | COG | GWYRDD | | | O ystyried trosglwyddo hawliadau Budd-dal Tai symlach i Gredyd Cynhwysol a'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID a wneir gan yr is-adran, mae'r cynnydd bach iawn yn yr amser a gymerir i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau'n dderbyniol |
| | Canlyniad | 4.26 | 3.59 | 3.84 | |
|  | Targed | 7.00 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 140485 | 96602 | 107804 | |
| | Enw. | 32970 | 26877 | 28096 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT02a ⇩ Cyflymder prosesu Gostyngiad Treth y Cyngor: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau newydd | COG | COCH | | | Mae'r gwasanaeth yn parhau i weinyddu grantiau Llywodraeth Cymru sy'n tynnu adnoddau oddi wrth swyddogaethau craidd. Mae cynnydd bach yn yr amseroedd prosesu'n dderbyniol dan yr amgylchiadau. |
| | Canlyniad | 22.89 | 25.11 | 26.90 | |
| | Targed | 20.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | DYRWIO | DYRWIO | |
| | Rhif. | 150597 | 214233 | 180229 | |
| | Enw. | 6578 | 8532 | 6699 | |







| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT02b ⇩ Cyflymder prosesu Gostyngiad Treth y Cyngor: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hysbysiadau o newid mewn amgylchiadau | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 4.12 | 5.55 | 3.85 | |
| | Targed | 7.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 295445 | 417057 | 321772 | |
| | Enw. | 71743 | 75094 | 83476 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| HSG16a ⇧<br>Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir y flwyddyn gan yr awdurdod lleol.<br><br>GRAFF HEB EI ARDDANGOS - Ail flwyddyn o addrodd yn llawn | COG | | | | |
| | Canlyniad | | 44 | 60 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 44 | 60 | |
| | Enw. | | | | |
| HSG16b ⇧<br>Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir y flwyddyn gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>GRAFF HEB EI ARDDANGOS - Ail flwyddyn o addrodd yn llawn | COG | | | | Mae cyfanswm y LCC yn seiliedig ar y data a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru trwy AFON nad ydynt yn cael eu cwblhau/ gwirio tan fis Mehefin/Gorffennaf felly gall y ffigur hwn newid. Bydd rhaglenni datblygu a gwaith cwblhau eiddo dilynol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y dyddiad trosglwyddo yn y flwyddyn ariannol. |
| | Canlyniad | | 203 | 129 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | Dim Data | DYRWIO | |
| | Rhif. | | 203 | 129 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| HSG16c ⇧<br>Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir y flwyddyn trwy Gyfunebau Adran 106/ ffynonellau eraill.<br><br>GRAFF HEB EI ARDDANGOS - Ail flwyddyn o addrodd yn llawn | COG | | | | Mae cyfanswm y LCC yn seiliedig ar y data a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru trwy AFON nad ydynt yn cael eu cwblhau/ gwirio tan fis Mehefin/Gorffennaf felly gall y ffigur hwn newid. Bydd rhaglenni datblygu a gwaith cwblhau eiddo dilynol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y dyddiad trosglwyddo yn y flwyddyn ariannol. |
| | Canlyniad | | 46 | 14 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | Dim Data | DYRWIO | |
| | Rhif. | | 46 | 14 | |
| | Enw. | | | | |
| PLA009a ⇧<br>Nifer yr unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd trwy ganiatâd cynllunio ar gyfer unedau tai Rhentu Cymdeithasol.<br><br>GRAFF HEB EI ARDDANGOS - Ail flwyddyn o addrodd yn llawn | COG | | | | Mae dichonoldeb prosiectau'n effeithio ar niferoedd yr unedau y gellir eu cyflawni. |
| | Canlyniad | | 198 | 176 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | Dim Data | DYRWIO | |
| | Rhif. | | 198 | 176 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| PLA009b ⇧<br>Nifer yr unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd trwy ganiatâd cynllunio ar gyfer unedau tai daliadaeth ganolradd. | COG | | | | |
| | Canlyniad | | 75 | 78 | |
| GRAFF HEB EI ARDDANGOS - Ail flwyddyn o addrodd yn llawn | Targed | | | | |
| | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 75 | 78 | |
| | Enw. | | | | |
| POV05 ⇧<br>Nifer y budd-daliadau ychwanegol a gynyddwyd i'r eithaf ar gyfer pobl sydd â hawl i hawlio bob blwyddyn drwy gyfranogiad y Tîm Hawliau Lles | COG | GWYRDD | | | Lleihawyd nifer yr apeliadau yn y flwyddyn ariannol hon yn sylweddol (eu haneru) oherwydd y gostyngiad yn y penderfyniadau a wnaed mewn tribiwnlys yn ystod COVID. Cafodd adolygiadau o hawliau i fudd-daliadau fel Taliadau Annibyniaeth Personol a'r Lwfans Byw i'r Anabl hefyd eu gohirio. Mae newidiadau deddfwriaethol i fudd-daliadau hefyd wedi effeithio ar lefel y budd-daliadau a godwyd, yn enwedig y golled sylweddol o bremiymau ychwanegol sydd ynghlwm wrth fudd-daliadau anabledd. (Isafswm colled o £67 yr wythnos i lawer o gleientiaid, a rhai'n colli hyd at £150 yr wythnos) |
|  | Canlyniad | 1416282.43 | 1418849.97 | 1139249.25 | |
| | Targed | 700000.00 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 1416282.43 | 1418849.97 | 1139249.25 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV06<br>Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd yr holl deuluoedd digartref â phlant mewn llety gwely a brecwast | COG | GWYRDD | | | Mae'r pwysau parhaus ar lety dros dro drwy gydol y pandemig wedi golygu nad oes modd osgoi defnyddio llety Gwely a Brecwast, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol hyn. Mae nifer yr unedau llety brys i deuluoedd wedi cynyddu yn 21/22, ac mae teuluoedd yn cael eu symud i lety mwy addas cyn gynted â phosib. |
| | Canlyniad | 4.57 | 1.75 | 10.38 | |
| <br> | Targed | 5.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 64 | 7 | 135 | |
| | Enw. | 14 | 4 | 13 | |
| POV10<br>Nifer y bobl sy'n cael gwaith drwy Gymorth Cyflogadwyedd | COG | COCH | | | |
| | Canlyniad | 354 | 453 | 481 | |
| <br> | Targed | 455 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 354 | 453 | 481 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV11 ⇧<br>Nifer y cymwysterau ardystiedig a gyflawnwyd yr Awdurdod lleol | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 1000 | 450 | 620 | |
| | Targed | 850 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 1000 | 450 | 620 | |
| | Enw. | | | | |



## Transnewid a Chyngor y Dyfodol 17-22

Mae'r cynnydd yn parhau ar gyflawni amcan lles Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol. Mae meysydd allweddol o gynnydd a wnaed yn 21/22 yn cynnwys y canlynol:
Rydym am foderneiddio a thrawsnewid y cyngor drwy ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. Yn y tymor byr, mae hyn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ac ymyriadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys sut rydym yn dod allan o'r pandemig ac yn adfer wedi hynny. Yn y tymor canolig a'r tymor hir, bydd y rhaglen yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi newid oherwydd y pandemig a sut y gallwn ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol i helpu i fynd i'r afael â'r galw cynyddol a chyllidebau refeniw sy'n lleihau.
Mae tirwedd ariannol y dyfodol yn parhau i ddod yn fwy heriol felly bydd arloesi a thrawsnewid yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn cynnal blaenoriaethau lleol.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran rhoi darpariaethau'r Ddeddf ar waith. Mae'r meysydd canlynol wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt ers tro:

o Ymestyn y Bleidlais i bobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion tramor cymwys, gan gynnwys sefydlu rhaglen/ymgyrch ymwybyddiaeth.
o Mae gwaith ar ddatblygu strategaeth cyfranogiad cyhoeddus ar y gweill ynghyd â chynllun deisebau a dogfen ganllaw ar gyfer cyfarfodydd lleoliad aml-safle.
o Mae'r ddyletswydd i gyhoeddi cyfeiriad electronig a phost ar gyfer pob aelod wedi'i gwblhau
o Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod ddwywaith
o Mae prosesau hunanasesu ac adrodd ar waith. Mae Cynllun Corfforaethol newydd a hunanasesu'n cael ei lunio
o Diwygiwyd y Cyfansoddiad i adlewyrchu newid yn enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys diwygio'r cylch gorchwyl drwy gynnwys adolygu ac asesu'r broses ymdrin â chwynion
o Mae'r broses o recriwtio aelodau lleyg i adlewyrchu bod 1/3 o'r aelodaeth yn bobl leyg bron â gorffen, a dim ond 1 aelod lleyg arall sydd ei angen.
o E-ddemocratiaeth: aeth cyfarfodydd hybrid yn fyw o Siambr y Cyngor ac Ystafell Gaerloyw yn Neuadd y Ddinas. Y nod yw cynyddu mynediad a chyfranogiad yn y broses ddemocrataidd gan y cyhoedd.

Mae gwaith y rhaglen Trawsnewid 'Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd' yn parhau mewn perthynas â'r gwaith parhaus o adfer, ailffocysu ac ail-lunio'r cyngor. Mae'r grwp llywio Sefydliadol, Trawsbynciol a Thrawsnewid a'r Bwrdd Strategaeth Adfer, Ail-lunio a'r Gyllideb wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd.
Mae'r cyfnod ailffocysu wedi pennu'r gyllideb gytunedig ar gyfer 2022-23 ac wedi adnewyddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n cefnogi'r cyngor i gyflawni'i flaenoriaethau a'i gynlluniau corfforaethol parhaus, wrth addasu i fynd i'r afael â'r effeithiau o ganlyniad i argyfwng COVID. Mae'r Rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol drwy'r ffrydiau gwaith.

o Cymru Lewyrchus - Cefnogi a hyfforddi gweithlu'r cyngor i ddarparu gwasanaethau wedi'u trawsnewid sy'n darparu'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.
o Cymru Gydnerth - Mae'r Strategaeth O Adferiad i Drawsnewidiad yn sail i'n hadferiad yn dilyn COVID-19 a'i nod yw trawsnewid gwasanaethau, sicrhau canlyniadau gwell i breswylwyr a sicrhau cynaliadwyedd ariannol gydag ôl troed carbon llai.
o Cymru Iachach - Nod y rhaglen yw annog mwy o berchnogaeth gymunedol, gwella iechyd a lles i staff, darparu ffordd o fyw heini a bywydau iach i'n dinasyddion e.e. ein hagwedd at Dai a'r Prosiect Teithio Llesol.
o Cymru sy'n fwy Cyfartal - Rhoi'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut mae polisïau'n cael eu llunio a sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu drwy gyd-gynhyrchu.

o Cymru o Gymunedau Cydlynus - Mae'r ffrwd waith Ymateb Cymunedol yn canolbwyntio'n gryf ar gyfranogiad y gymuned Mae'r prosiectau'n cynnwys y canlynol: cefnogi gwirfoddoli cymunedol, ehangu niferoedd Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a gweithio gyda'r Trydydd Sector a phartneriaid statudol ac anstatudol eraill yn Abertawe ac annog parhad perthnasoedd cymunedol.
o Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Drwy'r fframwaith cydgynhyrchu, byddwn yn sefydlu fforwm amrywiol i wirfoddolwyr cymunedol fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a rhoi cyfle iddynt fynegi'u barn. Bydd y rhaglen yn gwella'r cyfathrebu a'r ymgysylltiad â chymunedau, sy'n cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
o Cymru sy'n gyfrifol ar Lefel Fyd-eang - mae'r rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yn canolbwyntio ar y dyfodol ac ar gyflwyno cynaladwyedd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol, economaidd ac ariannol drwy'r ffrydiau gwaith. Mae unrhyw benderfyniadau'n ystyried effeithiau'r dyfodol e.e. newid yn yr hinsawdd.

Datblygwyd Strategaeth y Gweithlu drafft ar gyfer 2022-27 yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag Aelodau, yr uwch-dîm arweinyddiaeth, Undebau Llafur a thrawstoriad o'r gweithlu o bob Cyfarwyddiaeth. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â Rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, y Strategaeth Digidol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Mae'r Strategaeth yn cynnwys pedair Thema allweddol a naw Llinyn cysylltiedig. Bydd nifer o weithgareddau a nodwyd o dan bob Llinyn yn cefnogi cyflwyno'r Strategaeth a disgwylir iddi gael effaith gadarnhaol ar ffigurau salwch (dangosydd CHR002). Bwriedir lansio'r Strategaeth ar ôl etholiad 2022.
Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac ar hyn o bryd mae'n asesu'r model ar gyfer yr Hybiau Cymunedol newydd. Aeth gwefan newydd y cyngor yn fyw ym mis Awst 2021, gan wella mynediad at wybodaeth, ffurflenni ar-lein, a thaliadau i breswylwyr. Gwnaed adolygiad i sicrhau ei fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Cafodd Polisïau Cwynion y cyngor eu diweddaru'n unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Roedd hyn hefyd yn cynnwys prosesau ar gyfer cwynion yn Gymraeg.
Parhaodd y newid i sianeli digidol i dyfu yn ystod 2021-22 (Dangosyddion Cust2a a 2b). Mae taliadau ar-lein a'r defnydd o ffurflenni ar-lein yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn o'i gymharu â'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Roedd COVID-19 wedi cynyddu'r llwyth gwaith a wnaed ar-lein a thros y ffôn yng nghanolfan gyswllt y cyngor. Datblygwyd nifer sylweddol o geisiadau i gefnogi preswylwyr a busnesau Abertawe ac i ddosbarthu taliadau o ganlyniad i'r pandemig. Parhaodd hyn i 2021-22. Sefydlodd Gwasanaethau Digidol Abertawe ganolfan alwadau rithiol ar fyr rybudd i dderbyn y galwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd yn gofyn am dystysgrifau brechu.
Yn fwy diweddar, llwyddwyd i roi taliadau gwerth £6.8m i 45,000 o breswylwyr fel rhan o Gynllun Cymorth Costau Byw £150 Llywodraeth Cymru, a chyflawnwyd hyn o ganlyniad i waith ar y cyd gan wasanaethau. Rydym hefyd wedi rhoi dwy broses Awtomeiddio Proses Robotig (RPA) newydd ar waith; Ceisiadau Bagiau Ailgylchu a Cheisiadau Casglu Gwastraff Swmpus.

Aeth system archebu digwyddiadau newydd yn fyw ar 1 Medi 2021, a'r gwasanaeth cyntaf i'w defnyddio oedd Dysgu Gydol Oes ar gyfer eu cyrsiau dysgu oedolion poblogaidd iawn.
Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes (DGO) yn parhau i gynnig gwasanaeth Cymorth TG dros y ffôn yn ddyddiol, a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig. Mae'r gwasanaeth ffôn yn helpu preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau ar-lein, ac yn cyfeirio unigolion at sefydliadau cefnogi lle bo angen.

Cynigir Dewch Ar-lein Abertawe a chyrsiau digidol a TG sylfaenol fel darpariaeth wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd er mwyn cynorthwyo dysgwyr sy'n ddechreuwyr ac sydd ar lefel isel, a allai gael trafferth wrth geisio cael mynediad at ddosbarthiadau ar-lein. Cynigir cyrsiau ar lefel mynediad hyd at lefel 2 i unigolion sy'n dymuno cael achrediad neu wella'u sgiliau digidol ar gyfer gwaith a bywyd.

Mae'r Gwasanaeth DGO wedi gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd i ddatblygu cyrsiau a gweithdai cyflwyno digidol pwrpasol ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau digidol i gefnogi'u gobeithion o gael swydd. Mae nifer o ddosbarthiadau Digidol hefyd wedi'u darparu yn y gymuned i gefnogi defnyddwyr gan ddefnyddio'u tabledi neu eu dyfeisiau eu hunain i gael mynediad at wasanaethau a gwella sgiliau cyfathrebu a chydweithio digidol.


Mae diogelwch a chyfrifoldeb digidol wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mhob Rhaglen Ddigidol i gefnogi gwydnwch a diogelwch unigolion ar-lein. Mae cyrsiau wedi'u dylunio gyda Staff ac aelodau o'r gymuned i sicrhau bod anghenion cymunedol yn cael eu diwallu. Roedd y cyrsiau'n ymateb i'r ffaith bod preswylwyr yn cydnabod yr angen i wella sgiliau digidol wedi'r cyfnod clo.

Cydnabyddir bod dysgwyr ar draws pob rhaglen wedi gwella lefelau eu sgiliau digidol. Cadarnhawyd hyn gan ddysgwyr ac mae'n ganlyniad cadarnhaol yn dilyn y newid i gyflwyno ar-lein oherwydd y pandemig. Mae cymysgedd o ddosbarthiadau ar-lein, cyfunol ac wyneb yn wyneb wedi parhau. Rydym hefyd yn parhau i gynnig offer TG i'w fenthyca i unigolion sy'n dymuno cael mynediad at ein rhaglen ddysgu. Mae'r cynllun benthyca wedi bod yn fuddiol iawn i unigolion, gan alluogi mynediad at gyfleoedd dysgu, cefnogaeth ac achrediadau.


Fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol i Ysgolion, cafodd gwasanaethau e-bost eu mudo i e-bost Hwb Llywodraeth Cymru ar 25 Mai 2021. Mae buddsoddiad mewn ysgolion gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i ddarparu dysgu digidol effeithiol ar gyfer ysgolion ledled Cymru.

Mae Cyngor Abertawe'n parhau i weithio gyda phartneriaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar y prosiect 'Rhyngrwyd Pethau' i wella gwasanaethau i breswylwyr ar draws Abertawe. Fel rhan o'r llinyn Dinasoedd Cysylltiedig, rydym yn gweithio gyda rhaglen Ddigidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe i nodi a thargedu cyfleoedd isadeiledd y dyfodol, gan ddechrau gydag asedau cyhoeddus a datblygu o'r pwynt hwnnw.


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR002 ⇩<br>Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd salwch fesul gweithiwr | COG | COCH | | | Nodyn gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol - Ansawdd data'n cael ei adolygu. Mae cynnydd wedi bod mewn salwch oherwydd COVID ac absenoldebau sy'n ymwneud â straen. Darparwyd adnoddau ychwanegol i AD a DS ac iechyd galwedigaethol i gefnogi a chynghori wrth reoli achosion o salwch. |
| | Canlyniad | 11.85 | 9.23 | 12.66 | |
| | Targed | 10.00 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 105606.61 | 82955.96 | 116913.60 | |
| | Enw. | 8910.39 | 8984.92 | 9237.28 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CUST2a ⇧<br>Nifer y taliadau ar-lein a dderbyniwyd trwy wefannau Dinas a Sir Abertawe | COG | GWYRDD | | | Gellir gweld cyfanswm y trafodion ar-lein yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn mewn tuedd sy'n parhau. Rydym yn datblygu ffurflenni talu newydd lle bo modd, er enghraifft i gefnogi ceisiadau am stondinau masnach gan ein bod bellach yn gallu cynnal digwyddiadau. |
| | Canlyniad | 101087 | 106275 | 123921 | |
| | Targed | 94640 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 101087 | 106275 | 123921 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| CUST2b ⇧ Nifer y ffurflenni a gwblhawyd ar-lein ar gyfer prosesau wedi'u hawtomeiddio'n llawn | COG | GWYRDD | | | Mae'r cyfanswm blynyddol hwn yn is na 2020-21, ond mae'n da i ddangos cynnydd ar y lefelau cyn y pandemig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd gostyngiad yn lefel rhai pethau fel ceisiadau am fagiau ailgylchu, a oedd yn uchel iawn yn ystod y cyfnod clo gan fod y lleoliadau casglu arferol e.e. llyfrgelloedd ar gau. |
| | Canlyniad | 36552 | 68312 | 42642 | |
| | Targed | 24950 | | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DYRWIO | |
| | Rhif. | 36552 | 68312 | 42642 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| IT10 ⇧ Nifer y buddiolwyr sydd wedi bod yn rhan o raglen 'Dewch Ar-lein Abertawe' | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 302 | 151 | 196 | |
| | Targed | 300 | | | |
| | Tuedd | DYRWIO | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 302 | 151 | 196 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| PROC12 ⇩<br>Nifer yr achosion o fynediad diawdurdod at ddata sydd wedi arwain at orfdaeth neu gosb ariannol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth<br><br>GRAFF HEB EI ARDDGANGOS<br>Mai pob canlyniad yn sero | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 0 | 0 | 0 | |
| | Targed | 0 | | | |
| | Tuedd | SEFYDLOG | SEFYDLOG | SEFYDLOG | |
| | Rhif. | 0 | 0 | 0 | |
| | Enw. | | | | |

## Natur a Bioamrywiaeth 19-22


Mae Abertawe'n un o'r siroedd cyfoethocaf a mwyaf amrywiol o ran ecoleg yn y DU ac mae dros 50% o arwynebedd y sir o werth bioamrywiaeth sylweddol, gan gynnwys 17% sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae angen cynnal, cyfoethogi a rheoli'i hamrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau, ei hystod o barciau, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau penigamp yn gynaliadwy, er lles pawb, yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn y cyd-destun hwn, sy'n cynnwys mesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r prif gyflawniadau'n cynnwys y canlynol:

o Yn dilyn datganiad o Argyfwng Hinsawdd gan y cyngor ym mis Mehefin 2019, datganwyd Argyfwng Natur yn 2021 ac Argyfwng Ynni ym mis Chwefror 2022.
o Cafodd Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur ei chymeradwyo ym mis Tachwedd 2021 ac mae Cynllun Gweithredu'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
o Wrth gymryd camau i leihau ein hôl troed carbon, rhennir ffrydiau gwaith i gyflawni targed yn 2030 o allyriadau sero net ar gyfer Cyngor Abertawe a 2050 ar gyfer Abertawe gyfan.
o Datblygwyd Wal Siarter Hinsawdd ac Addewid i annog grwpiau o Abertawe, cyrff cyhoeddus, busnesau, ysgolion ac unigolion i wneud ymrwymiad i fod yn lleoliadau Sero Net erbyn 2050.
o Cafodd Strategaeth Ynni a Chynllun Rheoli Carbon eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021 ac mae Cynllun Gweithredu ar waith i gefnogi'r broses gyflenwi er mwyn lleihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ôl troed carbon y cyngor. Sefydlwyd cydweithio rhanbarthol er mwyn cefnogi gostyngiadau ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru.
o Mae'r cyngor wedi parhau i fod yn aelod o rwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel (BACI) ac yn dal i ymrwymo iddo. Amharwyd unwaith eto ar weithgareddau a digwyddiadau gan y pandemig eleni, ond cynhaliwyd gweminarau ar-lein a'r ffocws allweddol i bartneriaid y BACI eleni oedd paratoi Siarter Teithio Iach Bae Abertawe mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Fforwm Amgylcheddol Abertawe.
o Mae hyfforddiant ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi dechrau gyda staff mewnol ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu rhaglen ymwybyddiaeth ar gyfer y sector busnes.
o Mae Hwb Ymwybyddiaeth Ynni wedi'i dreialu yng nghanol y dref, a gynhelir gan Ganolfan yr Amgylchedd, sy'n cefnogi dinasyddion trwy ddarparu cymorth ac arweiniad ar ddarparu ynni, talu biliau, ynni adnewyddadwy, etc.
Mae'r cyngor wedi parhau i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned i ddarparu ynni glân ac i fod o fudd i ysgolion a chymunedau lleol ar ôl gosod systemau ffotofoltäig solar i gynhyrchu 900 kW ar doeon ar draws nifer o ysgolion.
o Mae'r parc trefol cyntaf i gael ei greu yn y ddinas ers oes Victoria wedi'i gwblhau ger yr arena newydd.
o Mae cynlluniau eraill i wella mannau cyhoeddus yn yr ardal ganolog wedi'u cyflwyno yn Ffordd y Brenin, Wind Street ac ardal Dewi Sant, yn ogystal â thoeon gwyrdd a waliau ar adeiladau ac adeileddau eraill drwy gyflwyno Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Canol y Ddinas y cyngor yn llwyddiannus.
o Mae gwella mannau gwyrdd hefyd wedi parhau fel rhan o'r rhaglen gwaith amgylcheddol i gyflawni ymrwymiad y cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru ac i fynd i'r afael â diffygion o ran mynediad i fannau gwyrdd naturiol.
o Mabwysiadwyd cyfres o bolisïau/brotocolau coed gan gynnwys: Canllawiau Cynllunio Atodol Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd, Safon Amnewid Coed Abertawe, Canllawiau Plannu Coed a Strategaeth Reoli ar gyfer coed ar dir sy'n eiddo i'r cyngor.
o Mae gwaith plannu coed helaeth pellach wedi'i wneud ar dir y cyngor ledled y sir, gan gynnwys hyd at 1000 o goed a 5600 o goed chwip, ac mae'r cyngor wedi cael ei ddatgan yn Ddinas Hyrwyddo Canopi Gwyrdd y Frenhines i gydnabod ei brosiectau plannu coed helaeth.
o Sicrhawyd cyllid grant gwerth dros £240,000 yn ystod 21/22 i wella ansawdd parciau a mannau gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau plannu coed, a chyflwynwyd cais am £370,000 o gyllid ar gyfer 22/23 i barhau â'r gwaith hwn.


o Mae rhaglen plannu blodau gwyllt y cyngor bellach wedi'i hehangu i oddeutu 40,000 metr sgwâr (tua 6 chae pêl-droed) o flodau gwyllt ar draws tua 190 o safleoedd. I gefnogi'r grant newydd hwn, mae peiriannau torri a chasglu wedi'u wedi'i prynu er mwyn helpu i reoli torri glaswellt yn well a helpu i roi hwb i flodau gwyllt a pheillwyr drwy gynnal llystyfiant sy'n llawn rhywogaethau gwahanol. Mae hyfforddiant cyflenwol hefyd wedi'i ddarparu gan gynnwys rheoli glaswelltiroedd parciau/ymylon; manteision torri a chasglu; y goeden iawn yn y lle iawn ac argyfyngau natur.
o Mae prosiect peilot ar gyfer gwella rheolaeth asedau corfforaethol er budd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol wedi ystyried pob safle Rhagor o Gartrefi a'u cynghori ar yr arolygon ecolegol y dylid eu cynnal. Mae briciau nythu wedi'u gosod a byddant yn parhau i gael eu gosod ar bob eiddo Rhagor o Gartref newydd.
o Mae Cydnerthedd Ecosystemau'r sir gyfan wedi'i fapio i nodi ardaloedd sy'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer gwella cynefinoedd a gwell cysylltedd.
o Er mwyn cefnogi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth, crëwyd pedair swydd newydd yn Nhîm Cadwraeth Natur y cyngor yn ystod 21/22, gan gynnwys Swyddog Partneriaeth Natur Leol, Swyddog Bioamrywiaeth (Adran 6), Swyddog Coetiroedd ac Ecolegydd Cynllunio, ac mae gwaith wedi dechrau i lunio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol.
o Mae dau swyddog mannau gwyrdd cymunedol a ariennir gan arian grant hefyd wedi'u penodi i ddechrau'r broses o fapio asedau isadeiledd gwyrdd i wella mynediad hamdden gyda'r manteision iechyd a lles cysylltiedig.
o Cyhoeddwyd rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau amgylcheddol ar-lein i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol lleol.
o Er gwaethaf effaith y pandemig, cynhaliwyd y gefnogaeth sylweddol ar gyfer grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gyda Phartneriaeth Natur Leol Abertawe, Gwirfoddolwyr Cymunedol Clun, Chwarel Rosehill, amrywiaeth o Grwpiau Cyfeillion y Parciau a Chanolfan yr Amgylchedd.
o Canran y gwastraff dinesig a gasglwyd ac a ailddefnyddiwyd a/neu a ailgylchwyd yn ystod y chwarter diwethaf yw 62.43% (data'n ymwneud â Ch3 2021/22) . Mae targedau ailgylchu ar gyfer y flwyddyn gyfan ac fe'i dylanwedir gan amrywiadau tymhorol mewn gwastraff gardd ac ni fydd y data yma ar gael tan y chwarter nesaf.

Edrych ymlaen yn ystod 22/23:
o Bydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol (Adran 6) yn cael ei adolygu'n unol â chylch adrodd 3 blynedd Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â llunio a chyflwyno Cynllun Gweithredu Adfer Natur mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Natur Leol Abertawe, a llunio Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ledled y sir - y mae ymgynghoriad yn ei gylch wedi'i ohirio o ganlyniad i'r pandemig.
o Mae pob safle ar dir y cyngor a all fod yn addas ar gyfer plannu coed yn cael eu mapio, ochr yn ochr â mapio'r holl goed a blannwyd i ddathlu dynodiad Abertawe fel Dinas Hyrwyddo Canopi Gwyrdd y Frenhines.
o Mae swydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr yr Amgylchedd Naturiol, a ariennir gan arian grant, wedi'i chreu i ailsefydlu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol gan fod gweithgareddau o'r fath wedi cael eu cwtogi oherwydd COVID dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
o Mae gwaith arfaethedig hefyd yn cynnwys ailddechrau cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth mewn ysgolion a mentrau ymarferol i wella cyfleoedd i blant ysgol gael mynediad i'w hamgylchedd naturiol a dysgu amdano.
o Mae ymgyrch ar y gweill i annog pob ysgol gynradd i ddefnyddio 'Energy Sparks' i fonitro'r defnydd o ynni.
o Mae datblygu fferm Solar ffotofoltäig 3MW yn Nhir John hefyd yn mynd rhagddo, a disgwylir i gais cynllunio gael ei gyflwyno ym mis Mai 22.


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2021/2022




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| EEF002 ⇧ Mesuriad o'r gostyngiad carbon ar draws portfolio cyfan adeiladau Cyhoeddus Cyngor Abertawe (%) | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 21.56% | 6.12% | 12.41% | |
| | Targed | 3.00% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 5327 | 1147 | 2328 | |
| | Enw. | 24705 | 18757 | 18757 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw -2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| NAT001 ⇧ Nifer y coed a blannwyd gan yr is-adran Parciau yn ystod y flwyddyn | COG | GWYRDD | | | |
| | Canlyniad | 414 | 232 | 512 | |
| | Targed | 283 | | | |
| | Tuedd | No Data | DYRWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 414 | 232 | 512 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| NAT003 ⇧<br>Canran y Rhagolygon Ansawdd Dwr Ymdrochi a arddangosir ar yr arwydd electronig cyhoeddus | COG | OREN | | | |
| | Canlyniad | 89.7% | 90.6% | 96.7% | |
| | Targed | 90.00% | | | |
| | Tuedd | No Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1497 | 1098 | 1572 | |
| | Enw. | 1668 | 1212. | 1625 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Sylw-2021/2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| WMT009b ⇧<br>Canran y gwastraff dinesig a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi ei ailddefnyddio a/ new ei ailgylchu | COG | GWYRDD | | | Mae Data WMT009b yn ymwneud â blwyddyn galendr 2021. Mae data blynyddol yn ddata dros dro oherwydd y gwahaniaeth yn y cyfnodau adrodd/data ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r gyfradd ailgylchu gymharol ychydig yn is na ffigyrau'r llynedd oherwydd effaith barhaus COVID; mae mwy o sachau du'n cael eu rhoi wrth ymyl y ffordd ac mae'r gwastraff masnachol wedi cynyddu'n awr i'n agos i lefelau cyn COVID. |
| | Canlyniad | 64.97% | 63.95% | 63.68% | |
| | Targed | 64.00% | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DYRWIO | DYRWIO | |
| | Rhif. | 71110.61 | 70191.59 | 73080.84 | |
| | Enw. | 109447.63 | 109765.58 | 114763.82 | |

